



LLANELLI - SIR GÂR - CYMRU

# Pentre Awel

LLANELLI - CARMARTHENSHIRE - WALES

## Mesur effaith Pentre Awel ar yr iaith Gymraeg

### Elfen 1: Adeiladu Parth 1

Effeithiau negyddol posibl	Effeithiau cadarnhaol posib
Gall cymhlethdod / natur arbenigol rhai pecynnau gwaith, gwasanaethau a deunyddiau sydd eu hangen i ddatblygu Parth 1 atal, neu eithrio busnesau bach a chanolig lleol	Nifer o gwmnïau lleol, o Gymru, yn cael gwaith adeiladu ar y safle a'r Gymraeg yn cael ei sefydlu fel iaith gyfartal yn y gweithle
Nifer fawr o gwmnïau o Loegr yng nghadwyn gyflenwi'r contractwyr yn cael pecynnau gwaith is-gontractwr	Y Gymraeg a'i diwylliant yn cael ei hyrwyddo ar y safle, fel yr awgrymir gan strategaeth Llywodraethau Cymru Cymraeg 2050: "Mewnfudo... gall hefyd fod yn gyfle i ddangos... aml-ddiwylliant ac amrywiaeth"
Nifer fawr o unigolion o'r tu allan i Gymru yn symud i'r ardal dros dro neu'n hirdymor o ganlyniad i'r cyfleoedd gwaith newydd sydd ar gael o fewn rhanbarth Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Gall hyn newid proffil ieithyddol yr ardal leol yn ystod y rhaglen adeiladu, gan greu mwy o anghydbwysedd o Gymry Cymraeg a di-Gymraeg yn yr ardal leol	Pob cwmni'n ccofnodi sgiliau iaith eu staff ac yn cytuno gwisgo bathodyn oren i ddynodi eu gallu i siarad Cymraeg
Saesneg yn unig yn cael ei siarad o gwmpas y safle am gyfnod estynedig	Pob gweithiwr yn derbyn hyfforddiant i godi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin cyn dechrau ar y safle. Gwybodaeth yn cael ei ddarparu am gyfleoedd i gaffael Sgiliau Cymraeg drwy'r system Addysg neu drwy gyrsiau Cymraeg.
	Elfennau sylweddol o brofiad gwaith yn cael ei gynnig yn y Gymraeg i Bobl ifanc
	Paru prentisiaid ifanc gyda siaradwyr Cymraeg ar y safle a'u hannog i ddefnyddio eu Cymraeg ar y safle
	Recriwtio Llysgenhadon Cymunedol Cymraeg eu hiaith a all eirioli dros y project a fydd yn ymgysylltu â'r cymunedau cyfagos
	pob cwmni'n rhoi gwybodaeth i'w staff am yr iaith Gymraeg, am addysg a chysiau Cymraeg

## Elfen 2: Sefydlu Cyfleusterau Hamdden

Effeithiau negyddol posibl	Effeithiau cadarnhaol posib
Saesneg yn cael ei sefydlu fel iaith weledol a gweithredol y Ganolfan hamdden newydd	Y Gymraeg yn cael ei sefydlu'n weledol gyfartal, ac fe'i cynhwysir fel sgil hanfodol ar gyfer gweithio mewn swydd yn ymwneud â'r cyhoedd yn y ganolfan hamdden
Gwersi nofio yn Saesneg: plant a phobl ifanc yn dysgu yn Saesneg yn hytrach na'u dewis iaith	Sefydliadau o bob sector yn cytuno i weithredu'n ddwyieithog o'r cyfleuster
Gwersi nofio yn Saesneg: plant a phobl ifanc yn colli allan ar gadw a datblygu eu sgiliau Cymraeg tu allan i'r ysgol	Sefydlu opsiwn gwersi nofio cyfrwng Cymraeg o'r dechrau
Dosbarthiadau a gweithgareddau hamdden yn Saesneg. Dim cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg wrth hamddena	Darpariaeth dwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnig a'i hyrwyddo
Heriau recriwtio hyfforddwyr gyda sgiliau Cymraeg yn llesteirio darpariaeth Gymraeg a dwyieithog	Siaradwyr Cymraeg ifanc yn cael eu recriwtio i gyflwyno gwersi nofio yn Gymraeg: pobl ifanc yn cadw a datblygu eu sgiliau Cymraeg
Hyfywedd ariannol darparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn amharu ar ddarpariaeth Gymraeg lle mae gwasanaeth yn cael ei arwain gan y galw	Cymry Cymraeg ifanc yn cael eu hyfforddi i fod yn hyfforddwyr nofio: pobl ifanc yn cadw a datblygu eu sgiliau Cymraeg
	Dosbarthiadau hamdden yn cael eu sefydlu yn Gymraeg o'r cychwyn cyntaf a'u marchnata'n effeithiol.
	Mae cyfle i bawb ddefnyddio a gwella eu Cymraeg yn hamddena
Clybiau chwaraeon newydd yn cael eu sefydlu'n Saesneg yn unig	Clybiau newydd yn cael eu sefydlu'n ddwyieithog neu'n Gymraeg
	Annog clybiau chwaraeon i ddarparu'n ddwyieithog, derbyn fideo hyfforddi ar sut i ddarparu'n ddwyieithog ynghyd â chael cyngor a chymorth i ddarparu deunyddiau dwyieithog
English clubs relocated to the new facilities	Annog clybiau chwaraeon i ddarparu'n ddwyieithog, derbyn fideo hyfforddi ar sut i ddarparu'n ddwyieithog ynghyd â chael cyngor a chymorth i ddarparu deunyddiau dwyieithog

### Elfen 3: Buddion Cymunedol

Effeithiau negyddol posibl	Effeithiau cadarnhaol posibl
Gweithgareddau ymgysylltu ag ysgolion a chymunedol yn cael eu darparu'n Saesneg yn unig - cyfleoedd i ennyn diddordeb trigolion a disgyblion Cymru yn y prosiect yn cael eu colli	Ymgysylltu ag ysgolion cyfrwng Cymraeg i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa a hyfforddiant ym maes adeiladu a phynciau STEM cysylltiedig. Gweithdai a chyflwyniadau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn cynnwys cydnabyddiaeth o fanteision sgiliau iaith ym mhob maes gwaith.
	Ymgysylltu gydag ysgolion yn annog disgyblion / myfyrwyr Cymru i wneud dewisiadau mwy deallus o ran gyrfa, gan eu helpu i gyflawni eu llawn botensial
Busnesau o'r tu allan i Gymru mewn sefyllfa gwell i dendro am waith.	Busnesau Cymreig yn cael cyfleoedd i dendro am becynnau gwaith (e.e. lloriau, paentio ac addurno, tirlunio). Gall cwmnïau llwyddiannus o Gymru recriwtio staff a/neu brentisiaethau ychwanegol
	Bouygues yn darparu cefnogaeth a chyfeirio i fusnesau bach a chanolig lleol Cymru i'w paratoi ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol (ee Achrediad, hyfforddiant a uwchsgilio)
Cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant yn denu myfyrwyr o'r tu allan i Gymru'n unig	Cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i Gymru wrth adeiladu Parth 1, yn cynnwys targedu grwpiau allweddol fel pobl hir dymor segur ac economaidd segur
Ymgysylltu â'r gymuned yn cael ei gynnig yn Saesneg yn unig, neu dim ond trigolion di-Gymraeg y mae trigolion di-iaith yn ymgymryd â hwy	Recriwtio llysgenhadon cymuned a myfyrwyr Cymraeg eu hiaith i eirioli dros y project

### Elfen 4: Darparu cyrsiau / rhaglenni addysg bellach ac addysg uwch ym Mhentre Awel

Effeithiau negyddol posibl	Effeithiau cadarnhaol posibl
Ystod gyfyngedig o raglenni addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall hynny atal rhai dysgwyr Cymraeg rhag astudio ym Mhentre Awel neu o fewn Sir Gaerfyrddin	Pentre Awel yn dod yn fan dysgu i siaradwyr Cymraeg sy'n cynnig cyrsiau addysg/sgiliau a rhaglenni dwyieithog
Mae'r ddarpariaeth yn ddibynnol ar sefydliadau Addysg Bellach ac uwch, gyda nifer yn wynebu phwysau ar adnoddau	Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg astudio yn Sir Gaerfyrddin, gan helpu i leihau diboblogi pobl ifanc a myfyrwyr o Sir Gaerfyrddin (h.y. cadw sgiliau a thalent yn y sir).
Gallai diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg gael effaith negyddol wrth gyfyngu amrywiaeth ymgeiswyr am rolau yn y dyfodol (e.e.	Byddai darpariaeth ddwyieithog yn cyfrannu at themâu strategol <i>Cymraeg 2050: Miliwn o</i>

meddygon sy'n siarad Cymraeg, nyrsys, gwyddonwyr data)	<i>Siaradwyr</i> , yn benodol – cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
Gall darparu cyrsiau allweddol yn uniaith Saesneg leihau hyfedredd / defnydd o'r Gymraeg ar draws y sir	Darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cyfrannu at well hyfedredd yn y Gymraeg
	Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) - darparu cyfleoedd i'r gweithlu ym Mhentre Awel i gynnal neu ddatblygu eu rhuglder yn y Gymraeg

#### Elfen 5: Sefydlu llety a chyfleusterau Byw gyda Chymorth

Effeithiau negyddol posibl	Effeithiau cadarnhaol posib
Ymgysylltu / rhwydweithio cymdeithasol gwael yn cyfyngu ar gyfleoedd trigolion i sgwrsio yn Gymraeg. Gallai hyn gynyddu'r risg o unigrwydd ac unigedd, yn enwedig ymhlith preswylwyr hŷn sy'n derbyn gofal a/neu reoli cyflyrau cronig / iechyd gwael	Cefnogi oedolion a theuluoedd Cymreig bregus sydd angen gofal (e.e. gofal nyrsio, gofal cartref) er mwyn cynnal/gwella eu hiechyd a'u lles, amddiffyn eu hannibyniaeth a chreu ymdeimlad o berthyn. Y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hwyluso a'i hannog fel rhan annatod o'r gofal.
Gallai cymysgedd anghymesur o broffil Cymraeg a di-Gymraeg atal defnydd o'r Gymraeg, traddodiadau/diwylliant	Darparu gwasanaeth gofal dwyieithog sy'n caniatáu i breswylwyr dderbyn gofal yn eu dewis iaith (h.y. y 'Cynnig Rhagweithiol sy'n cael ei hyrwyddo yn y polisi 'mwy na geiriau')
	Gwell ansawdd bywyd i drigolion Cymraeg sy'n byw ar y safle
	Cyfle i gyfoethogi a datblygu sgiliau Cymraeg i'r di-Gymraeg sy'n byw ar y safle trwy ddsbarthiadau cymunedol/grŵp. Gall hyn wedyn wella cydlyniant cymunedol.
	Aliniad gyda thueddiadau demograffig – bydd y safle byw â chymorth yn cynnwys cyfran uwch o bobl hŷn sydd, fel y dengys data'r Cyfrifiad, yn fwy tebygol o sgwrsio yn Gymraeg
	Gallai agosrwydd Pentre Awel i ysgolion lleol a gwasanaethau ar y safle hwyluso gweithgareddau rhwng cenedlaethau (e.e. prosiectau hanes, technoleg, casglu sbwriel, tyfu bwyd) rhwng disgyblion a thrigolion sy'n siarad Cymraeg o fewn y cyfleusterau byw cynorthwyol – gan leihau unigrwydd ac unigedd ac annog defnyddio'r Gymraeg.

**Elfen 6: Adeiladu Tai; Fforddiadwy, Cymdeithasol a Marchnad Agored**

Effeithiau negyddol posibl	Effeithiau cadarnhaol posib
Gallai mewnfudo gynyddu cyfran poblogaeth Sir Gaerfyrddin sy'n methu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg	Creu cymuned ddwyieithog ffyniannus a chydlynus gyda hunaniaeth ddiwylliannol Cymraeg gref
	Cadw graddedigion, teuluoedd a gweithwyr medrus Cymraeg yn y sir (h.y. gwrthdroi tueddiadau allfudo)
	Cynyddu nifer yr ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg am rolau cyflogaeth ar y safle ac o fewn y sir ehangach

**Elfen 7: Sefydlu, adleoli a datblygu busnesau newydd**

Effeithiau negyddol posibl	Effeithiau cadarnhaol posib
Amharodrzydd / diffyg hyder busnesau, yn enwedig busnesau newydd, i gynnal gweithgareddau yn y Gymraeg o ystyried yr heriau cyffredinol a pharhaus o dyfu busnes llwyddiannus	Meithrin twf busnesau Cymru yn cael effaith gadarnhaol gyfatebol ar les y Gymraeg
Gallai atal busnesau newydd rhag ymsefydlu ym Mhentre Awel	Cyfle i wreiddio arferion busnes cyfrwng Cymraeg mewn busnesau newydd/cynnar, gan roi mantais gystadleuol iddynt o'r cychwyn cyntaf
Colli cyfle i normaleiddio defnydd o'r Gymraeg mewn busnesau newydd	Gallai'r defnydd o'r Gymraeg gynyddu 'apêl' busnesau